160 528894 5

292

"YR ATHRAW A'R MEDDYG."

# MARWNAD

# DR. JOHN HUGH JONES,

## TALYSARN.

GAN

MR. H. JONES (BRYFDIR), BLAENAU FFESTINIOG

(BUDDUGOL YN NGHYLCHWYL GADEIRIOL TALYSARN
A HYFRYDLE, IAU Y DYRCHAFAEL, 1893),

GYDA

# BYR-GOFIANT,

GAN Y

PARCH. THOMAS GWYNEDD ROBERTS, RHOSTRYFAN.

CAERNARFON:
ARGRAPHWYD GAN W. GWENLYN EVANS, 22, STRYD-Y-LLYN.

# DYFYNIAD O'R FEIRNIADAETH.

*Y Pren Gwyn.* . . . . Ymddengys "Y Pren Gwyn" fel un yn cymeryd arno fod i fesur yn gloff yn y cychwyn er mwyn dangos ei hoewder i'r fantais oreu wrth fyn'd yn mlaen. Ceir arwyddion ysgafn, yma ac acw, yn y cyfansoddiad o frys neu ddiofalwch—ambell air a llinell y gallesid eu gwell, ond nid ydynt oll ond brychau dibwys. . . . . Y mae "Y Pren Gwyn" yn fwy awengar na'r oll o'i gydymgeiswyr. Y mae llawer mwy o swyn a phrydferthwch barddonol yn ei gân. Y mae llewyrch y farddoniaeth sydd ynddi yn dlysach a disglaeriach ; ac nid yw y llewyrch yn cael ei wastraffu ar bethau anmherthynasol i'r gwrthddrych, ond arno ef y disgyn ei belydrau ac nid ar neb arall. . . . . Y mae eraill yn y gystadleuaeth yn dwyn i sylw lawn cynifer o ffeithiau yn hanes y Doctor, ond nid oes yr un o honynt wedi llwyddo i wneyd hyny mor dlws, mor darawgar, ac mor farddonol. Y mae mesur da o "ddeffroad" ac "adnewyddiad" yn ei gân. . . . . Nid oes amheuaeth yn fy meddwl nad "Y Pren Gwyn" yw y goreu, ac iddo ef, ar air a chydwybod, yr wyf yn dyfarnu y wobr, y gadair, a'r clod.

R. R. MORRIS.

Caernarfon.

enill cymeradwyaeth gyffredinol. Diau fod ol ei feddwl a'i waith ar lu oedd yn blant y blynyddoedd hyny yn yr ardal boblog hono.

Erbyn deall, yr oedd ein hanwyl gyfaill, yn ystod y chwe' blynedd hyn, os nad cyn hyny, wedi bod yn cadw golwg benderfynol a sefydlog ar newid ei alwedigaeth a myned yn feddyg. Nid ydyw y ddwy alwedigaeth yn anghydnaws a'u gilydd o gwbl. Fel y dywedid yn brydferth ar ddydd ei angladd, yr oedd yr Athraw a'r Meddyg wedi cydgyfarfod yn yr un Person cyn hyn. Yr oedd "Yr athraw goreu 'rioed" a'r "Meddyg a ddichon yn gwbl iachau," yn un yn yr Arglwydd Iesu Grist. Ni pheidiodd Dr. Jones a bod yn athraw er iddo roi "cadw ysgol" i fyny, ac ymgymeryd â'r alwedigaeth feddygol. Treuliodd y pedair blynedd nesaf i fyned drwy gwrs o addysg feddygol yn Glasgow. Er amled ei oruchwylion ac er cymaint ei waith yn Mlaenau Ffestiniog, yr oedd wedi parotoi yno gogyfer ag eistedd yr arholiad cyntaf (*preliminary*). Y mae ei hanes yn myned drwy gwrs ei efrydiaeth yn Glasgow yn hanes ymroddiad diflino, a llwyddiant ac anrhydedd diamheuol. Dylynai y gwahanol ddosparthiadau ac arholiadau, fel y dengys ei Dystysgrifau, gyda'r cysondeb mwyaf. Nid oedd am golli yr un. Y mae amryw o'r Tystysgrifau hyn yn mynegu ei fod yn dylyn y dosparthiadau gyda "rheoleidd-dra perffaith." Cafodd amryw Dystysgrifau anrhydeddus am ragoroldeb neillduol (*distinguished excellence*) yn ngwaith y dosparthiadau hefyd; ac enillodd o leiaf un wobr werthfawr. Mewn credlythyr iddo a ysgrifenwyd gan Dr. Clark, Darlithydd mewn *Anatomy* yn Glasgow, cawn frawddeg fel hyn: "Yr oedd Mr. Jones yn eithriadol gydnabyddus â llenyddiaeth ei alwedigaeth (*"Mr. Jones was exceptionally well read in the literature of his profession"*). Dengys y dystiolaeth hon ymhellach, mai nid y llyfrau angenrheidiol gyda gwaith y dosparthiadau a ddarllenasai yn unig, ond fod ei ddarllen ar lyfrau Meddygiaeth yn eithriadol o ëang. Wedi gadael yr athrofa parhäi i efrydu, ac yr oedd ganddo arholiadau y bwriadai fyned drwyddynt drachefn, yn enwedig gyda golwg ar y *Public Health Diploma* (Edin).

Gwedi enill y cymhwysderau, y trwyddedau, a'r graddau angenrheidiol, ymsefydlodd fel meddyg yn ardal ei hen gartref, Talysarn. Ymhen amser sicrhäodd iddo ei hunan y palas prydferth, Llwyn Onn, gerllaw Penygroes, lle y buasai meddygon o bryd i bryd yn preswylio o'r blaen. Ar ol hyny, heblaw parhau i gynal ei ystafelloedd meddygol yn Nhalysarn, agorwyd rhai ereill ganddo yn Llwyn Onn hefyd.

Yn y flwyddyn 1889 ymbriododd â Miss Thomas, Bryn Menai, North Road, Caernarfon, a phrofodd yr undeb yn un tra dedwydd.

Yr ydym yn cofio yn dda am dano hefyd fel cynnrychiolydd ei ysgol yn y Cyfarfod Ysgol, ac am dano yn llefaru ar y testyn yn y cyfarfod am ddeg o'r gloch. Ar un o'r achlysuron hyn y testyn oedd, "Cyfiawnder Ymarferol;" ac yr oedd y dull a gymerodd i osod y pwnc ger bron, yngoleuni adnodau y Beibl a dim arall bron, yn rhywbeth neillduol o gryf.

Cyn nemawr o amser wedi iddo ymsefydlu fel meddyg yn ei hen ardal, dygwyd cyfundrefn y safonau i sylw y Dosbarth Ysgol, a dadleuid dros ei mabwysiadu. Bu efe o wasanaeth mawr yn yr ymdrech, nid yn unig yn Hyfrydle ond drwy y Dosbarth oll. Ar ddiwrnod canmlwyddiant yr Ysgol Sabbothol yn 1885, mewn cynnadledd o gynnrychiolwyr y ddau Ddosbarth Ysgol a ymunent â'u gilydd yn Mhenygroes i ddathlu yr wyl, sef Clynnog ac Uwch Gwyrfai, penderfynwyd mabwysiadu cyfundrefn y safonau yn yr holl ysgolion y flwyddyn hono, fel, yn un peth, y byddai hyny yn fath o goffadwriaeth wastadol am wyl y canmlwyddiant. Yn Nosbarth Uwch Gwyrfai, buwyd yn ffyddlawn i gario allan y penderfyniad. Nis gwyddom am Ddosparth Clynnog; ond yn y dosparth arall mabwysiadwyd y safonau yn mhob ysgol. Ond fe gaed llawer o anhawsderau er hyny, oddiwrth ragfarn ac anwybodaeth. Ynghanol yr anhawsderau, ni chaed mwy o gynnorthwy oddiwrth neb nag a gaed oddiwrth Dr. Jones. Bu yn un o arholwyr y safonau yn y dosparth am flynyddoedd, a gwnaeth anerchiadau a draddodid ganddo ef ar Sabbath yr arholiad yn y gwahanol ysgolion, lawer iawn er digaregu y ffordd. Y flwyddyn y bu efe farw yr oedd wedi cael ei benodi yn arolygwr cyffredinol y safonau yn Nosparth Uwch Gwyrfai. Yn rhinwedd y penodiad hwn yr oedd wedi ymweled â rhai o'r ysgolion i roi cynllun-wersi i'r dosparthiadau ieuainc, gan gadw golwg yn benaf ar eu hathrawon a'u hathrawesau; ac yr oedd wedi bwriadu ymweled â'r holl ysgolion. Diau y buasai llawer iawn o ddaioni yn dylyn y cynllun hwn o'i eiddo pe y cawsai ei arbed i'w weithio allan.

Yr oedd Dr. Jones hefyd yn mhob cysylltiad yn wr tra chrefyddol, a'i ymlyniad wrth achos yr Arglwydd Iesu yn fawr iawn ar hyd ei oes. Gallesid ysgrifenu penod faith o hanes ei ymroddiad parod i waith yr Arglwydd tra fu yn Mlaenau Ffestiniog. Yr adeg hono yr oedd achos Seisnig yn cael ei gychwyn gan y Methodistiaid Calfinaidd yn y Blaenau. Am ran o'r amser penodwyd yntau i gymeryd gofal yr achos, ac yn y modd mwyaf diymhongar a pharod ymgymerodd â'r penodiad. Bu holl ofal arweiniol y gwasanaeth arno ef am o leiaf un flwyddyn. Efe ofalai am y casglu a'r cyhoeddi, ac efe hefyd arolygai yr Ysgol Sabbothol, ac a arweiniai yn y cyfarfodydd wythnosol. Mewn gair, gweinyddai holl waith swyddog yn y lle, er nad ydoedd yn swyddog. Ni chafodd y cyfeillion unrhyw

Dr., " Yr ydych chwi wedi talu eich dyled i mi, ond yr wyf fi yn awr yn rhoi y swm arian yma yn ol i chwi." Nid oedd wiw ceisio eu gwrthod. Bu raid iddo eu cymeryd. Dychwelodd adref gyda'r cyfrif ar lyfr y Dr. wedi ei ddileu, y ddyleb wedi ei harwyddo, a'r arian oll yn ei logell er hyny.

Nis gallwn ymatal heb ychwanegu un ffaith arall. Ryw ddiwrnod daeth dyn tlawd o beth pellder ato i ofyn a gawsai efe gostrelaid o feddyginiaeth, ei fod yn bur wael, ond nad oedd ganddo fwy na swllt ar ei elw. Rhoes y Dr. gostrelaid lawn iddo, ac yr oedd y gwr wedi dwyn gydag ef gostrel a chryn faint ynddi. Yna rhoes y swllt i Dr. Jones. Cyn i'r dyn fyned allan o'r ystafell, gofynodd y Dr. iddo, pe y cawsai efe y swllt yn ol, a fuasai efe yn prynu torth o fara yn Mhenygroes i fyned gartref gydag ef? Sicrhaodd y dyn y gwnaethai hyny. Rhoes y Dr. y swllt iddo, a diolchodd yntau am dano a'i holl galon. Ymhen awr neu ddwy yr oedd y Dr. yn cychwyn ar ei ymweliad dyddiol a'r cleifion, ac wedi teithio dwy neu dair milldir goddiweddodd y dyn yn myned tuag adref, a'r dorth dan ei fraich. Pan ddaeth y Dr. hyd ato, cododd y dyn y dorth i fyny, gan ddweyd, " Dyma hi," er dangos nad oedd wedi camddefnyddio y swllt. Taflodd y Dr. swllt arall iddo. Yr oedd y dyn erbyn hyn yn teimlo ei hunan wedi gwella llawer, er nad oedd eto wedi bwyta dim o'r bara, nac yfed dim o'r cyffur. Yr oedd caredigrwydd y Dr. wedi effeithio yn ffafriol ar yspryd y truan. Cafodd yntau ar y llaw arall lawn daledigaeth yn yr olwg ar brawf newydd fod calon lawen yn gwneyd lles fel meddyginiaeth.

Ymddengys fod y nodwedd yma yn llawn mor amlwg a'r un yn ei gymeriad, cymwynasgarwch tuag at y tlawd. Nid wyf yn meddwl y byddai yn rhy gryf i ddweyd, fod ei awydd yn angerddol am helpu plant gofidiau. Y mae llawer na allant son am dano heddyw heb y dagrau ar eu gruddiau, oherwydd cofio mor fyw am ei dynerwch a'i gymwynasau iddynt. Fe ddywedodd yr emynydd am y Meddyg mawr,—" *Mae'n ddyn i gydymdeimlo.*" Yr oedd ein hanwyl gyfaill yn *ddyn allai gydymdeimlo* mewn gweithred a gwirionedd.

Y mae y crybwylliadau byrion hyn yn dangos fod y diweddar Dr. Jones yn un o rai rhagorol y ddaear. Ac wrth i ni edrych o safle y ddaear, nis gallwn lai na dweyd fod ei farwolaeth yn golled ddirfawr i'r gwahanol gylchoedd y cyfeiriwyd atynt genym yn awr. Pan oedd ei ddefnyddioldeb yn y naill gylch a'r llall wedi dechreu cael ei deimlo mewn grymusder, cymerwyd ef ymaith. Machludodd yr haul yn fuan wedi iddo ddechreu tywynu, pan nad oedd efe ond prin 41 mlwydd oed, ar ol bod yn dylyn yr alwedigaeth o feddyg yn Nyffryn Nantlle am ddeng mlynedd.

# MARWNAD.

Canaf am dano, nid am fod llawryfon
Anrhydedd yn fy nghymell gyda'u swynion ;
Nid er mwyn ceisio gwneuthur " bryn " o'i feddrod
I'm codi'n nes i ryw anfarwol drigfod ;
Ond er mwyn caniatau i'r hiraeth gwastad
Sydd yn fy mron, un cyfle'i ddweyd ei brofiad.

Yn enw Rhinwedd, Hiraeth, ac Anwyldeb,
Yr wyf yn dewis gwystlo fy ffyddlondeb
I'r gwrthddrych hwn ; afreidiol i derfynau
Yw coledd arswyd rhag fy ymweliadau.
Mae ffrwythau ddigon aı ei fywyd gweddus
I borthi y dychymyg mwyaf nwyfus,
A dagrau hiraeth ddigon wedi eu colli
Ac yn parhau, i gyfiawnhau ei foli.

'Roedd neillduolrwydd wedi ei argraphu
Ar fywyd hwn yn blentyn fel yr Iesu,
Gan ddwyn tystiolaeth fyw yn erbyn gwegni'r
Athrawiaeth gau,—" na raid i'r mawr ei eni."
Nid ymddigrifai lawer mewn chwareuon,
Fel eraill o'i gyfoedion di-ofalon ;
Ond sugnai ef yn aml ei hyfrydwch
Wrth wylio'u symudiadau mewn tawelwch.
Dilynodd y tawelwch rhyfedd hwnw
Ei fywyd drwy y byd, a chafodd farw
Yn nghanol ei dangnefedd, fel yr huan
Yn machlud fel y cododd,—ar fynwes hedd ei hunan !
Ac mewn tawelwch dwfn mae gwneuthur lles,
Ni chlywir swn yr haul yn taflu gwres,
Ni thorodd natur ieuanc air erioed
Wrth ddyfod gyda dail i wisgo'r coed ;
Mae corn y lloer yn hollti'r cymyl duon
Heb darfu cwsg, na thori cwrs breuddwydion
Y mwyaf distadl yn mysg meibion dynion.
Ar riniog oes, fe benderfynodd yntau

Fel briallen dan belydrau
  Haul y Gwanwyn agor wna,
Heb adnabod dim ond gwenau
  Siriol fel boreuau Ha' ;
Gofal tyner sydd yn gwarchod
  Ei brydferthwch fore a hwyr,
Pob trafferthion yn ei wyddfod
  Wywant i ddiddymdra'n llwyr.

Nid pob boreu gwyn, addawol,
  Sydd yn wenau ar ei hyd ;
Mae rhyw "fedd" a'i drem angladdol
  Yn pruddhau holl erddi'r byd ;
Ac yn ngardd ei fywyd yntau
  Profedigaeth gloddiodd fedd,
Cyn cael teimlo ond pelydrau
  Tair o hafau ar ei wedd.

Ond, ar fedd ei Dad tyneraf
  Nid ymroi i wylo'n ffol
Wnaeth y bachgen, fe'i canfyddaf
  Gyda gobaith lond ei gol
Yn gwynebu, er yn afiach,
  Rym y canlyniadau rhain,
Mae y lili yn brydferthach
  Pan yn tyfu drwy y drain.

Hyd lechweddau gwyrddion Addysg
  Cychwyn wna yn fyr ei gam,
Heb gyfodi unrhyw derfysg,
  Na gofidio'i anwyl Fam ;
Gyda glàn y Lyfnwy dawel
  Cerddai at yr ysgol hon,
A sibrydodd obaith dirgel
  Lawer tro yn nghlust ei thòn.

Tybed fod yn llif y Lyfnwy
  Ryw ddylanwad cyfrin, cudd,
Ymgeledda bob athrylith
  Rodia'i glan yn moreu'i ddydd ?

Cyn i wawr ei ragolygon
  Orphen tori'n ddydd boddhaus,
Cododd awydd yn ei galon,—
  Awydd ieuanc, cryf, parhaus ;—
Awydd myned yn Chwarelwr,
  Fel pob un o blant y creig,
Awydd brofodd yn orchfygwr
  Yn ei natur lân, Gymreig.
Ond ni lwyddodd hyny'i oeri
  Gwres ei benderfyniad ef,
Fe barhaodd hwnw'i losgi
  Fel goleuni'r Deml gref ;
Ac nid oedd y syniad heini
  Grwydrodd drwy ei feddwl rhydd,
Ond afradlon gwmwl wedi
  Colli'r ffordd ar lwybrau'r dydd.

Nid ar lwybrau pell disberod
  Y meddyliai ef am fyw,
Rhy bur oedd i roddi trallod
  I'w rieni nac i'w Dduw ;
'Roedd dylanwad rhiaint grasol
  Yn ei ddilyn yma a thraw,
Fel rhyw angel cryf, gwarcheidiol,
  Gan ymaflyd yn ei law.

Gwywo wnaeth ei syniad uchel
  Am y Chwarel yn y man,
Traethodd profiad wers ddiogel
  Iddo ar y mynydd ban ;
A phan groesodd riniog cartref,—
  Croesi am y gyntaf waith,
Ysbryd llawer gweddi ddwyslef
  A'i dilynodd ar ei daith ;
Ni cha'dd deimlo oer unigrwydd
  Yn llesteirio'i ysbryd gwan,
'Roedd cynghorion saint yr Arglwydd
  Iddo'n gwmni yn mhob man.

Os anaddfed oedd ei brofiad
  Eto'i ffurfio llawer barn,
Nid anaddfed oedd ei gariad
  At hen eglwys Talysarn ;

Methodd byd-ofalon gloffi
 Ei ddiwydrwydd gyda'i waith,
Er i'w wyneb orfod gwelwi
 Yn yr ymdrech lawer gwaith;
Gyda'i wersi daliai'n ffyddlon,
 Tra gorphwysai dynolryw,
Heb ddim tystion i'w ymdrechion
 Ond y ser, a'r nos, a Duw.

Ei ddyfalwch roes yn fuan
 Lawryf llwyddiant yn ei law,
Yn orchfygwr cerddai allan
 Heb fynwesu unrhyw fraw;
Myn'd yn Ysgolfeistr ffyddlon
 Wnai yn awr yn fwyn ei dôn,
I ardaloedd y Derwyddon,—
 I dawelwch Ynys Mon.

Nid oedd eisiau Cymreigeiddio
 Gronyn ar ei natur ef,
Na, 'roedd arddel bri y Cymro
 Iddo yn rhagorfraint gref;
Pe heb hyny yn ymlosgi
 Eisoes yn ei fynwes fad,
Cafodd le i angerddoli
 Cariad Cymro at ei 'wlad.

Ni cha'dd "Maen" na "Chromlech" ddianc
 Rhag ei sylw, wladwr cu,
Gwisgai mewn prydferthwch ieuanc
 Hen weddillion Cymru Fu;
Bu yn olrhain rhawd y genedl
 Lawer gwaith o fro i fro,
Ac i ofergoelion distadl
 Bu'n farwolaeth lawer tro.

Er ymlyniad y trigolion
 Wrtho yn yr ardal hon,
Er fod parch ei ysgolheigion
 Iddo hwnt ein dirnad bron,

I Athrofa rad y bryniau
  Ymneillduai ambell dro,
I gyfrinach hen ogofau
  Yn mhellafoedd creigiau'r fro,
Wrth gofleidio yr unigrwydd
  Yn nghynteddau'r bryniau mud,
Plygodd mewn addoliad ebrwydd
  I'w Creawdwr lawer pryd.

Ca'dd y Moelwyn am ei fawredd
  Ei edmygedd yn ddioed,
Dysgai wersi arucheledd
  Fel efrydydd wrth ei droed,
Dysgodd gymaint wrth ei weled
  Gyda'i frig wrth borth y nef,
Nes mynegi nad oedd Tynged
  Wedi gorphen gydag ef.
Awydd esgyn gris yn rhagor
  Dorodd yn ei fynwes ber,
Haws na'i atal gyda chyngor
  Fuasai newid lliw y ser!
Penderfynodd fod yn Feddyg,
  Ac i ddiogelu'i rawd,
Gwnaeth ymdrechion heb eu tebyg;
  Nid aiff llafur byth yn wawd.

Hwyliodd i dueddau'r Alban,
  Yn ddiystyr o bob braw,
Gweddi ar ei wefus fwynlan,
  Cledd diwydrwydd yn ei law;
Safodd yn ei ran yn wrol,
  Llwyddodd yn ei ymgais frwd,
Chwalodd anhawsderau heriol
  Gyda min ei gledd di-rwd.

Tua bro ei enedigaeth
  Bellach y dychwela'n llon,
Gyda thlysau buddugoliaeth
  Yn serenu ar ei fron;
Mae llawenydd fel pe'n gwisgo
  Craig a dyffryn, bryn a dôl,
Mae pob gallu wedi deffro
  I'w groesawu yn ei ol.

Ond i hwn 'roedd clod y cyhoedd
  Fel y dyfroedd dan yr Arch,
Yn ei godi'n nes i'r nefoedd
  Ar frig llanw dwyfol barch.

Ni thrafferthodd ef i ddysgu
  Adwaen graddau yn y byd,
Ceisio dyn a'i ymgeleddu
  Oedd ei neges fawr o hyd.
Diystyrai'r coeg, mursenaidd,
  Heb ddynoliaeth iddo'n sail,
Un a'i drem yn ddigon oeraidd
  I droi'n rhew belydrau'r haul!

Ni fu bathu esgusodion
  Yn demtasiwn iddo ef,
Hoffai wasanaethu dynion
  Fel y gwasanaethai'r nef,
Ni fu'r hin erioed rhy arw,
  Ni fu'r daith erioed rhy bell,
Ni fu'r achos rhy ddisylw
  Ganddo'i feiddio'r dymhestl hell.

Dros y Cilgwyn croesodd droion
  Yn nhawelwch oriau'r nos,
Gallaf alw'r ser yn dystion
  O bellderau'r wybren dlos;
Do, cychwynodd yn ddi-hyder
  Am adferiad llawer un,
Gyda'i fynwes dan ei phryder
  Bron mor drom a'r nos ei hun!

Angel oedd mewn caredigrwydd,
  O dosturi 'roedd yn llawn,
Mewn trallodion ei ledneisrwydd
  Tawel oedd yn well na dawn;
Llawer truan caled arno
  Gafodd ynddo gyfaill gwyn,
Tyfa'i gydymdeimlad drosto
  Fel gwyrddlesni dros y bryn.

Tyf y glaswellt yn rymusach
  Pan yn cylchu carreg fud,
Tyfai ei rinweddau yntau
  'N uwch dan bwys trafferthion byd.

Methodd athrod, absen, gweniaith,—
  Meini tramgwydd tafod dyn,
Methodd enllib ei godymu,
  'Roedd ei feddwl ar ddihun ;
Penderfynodd wneyd ei fywyd
  I bob mynwes drist yn falm,
Penderfynodd efelychu
  Cristion y Bymthegfed Salm*

Fe ddilynodd wersyll Israel
  Heb ddiffygio ar y daith,
Un o dylwyth Judah ydoedd
  Ar y blaen mewn sel a gwaith ;
Sel i weithio mewn cysondeb
  Heb ddim trwst oedd sel ei ffydd,
Sel sy'n diffodd er ein gofid
  Ar allorau Cymru Sydd.

Meddai ef ar dymher wastad,
  Siriol megis heulog ddydd,
A'i llewyrchiad yn arianu
  Glynoedd llawer meddwl prudd ;
Gwelir yn Hyfrydle heddyw
  Lawer un mewn hiraeth syn,
Wrth adgofio'r mwyniant gafodd
  Yn ei thyner wawl cyn hyn.

Mewn distawrwydd ef yn fynych
  A lefarai gyfrol lawn,
Estron oedd i'r nwyd gorwyntog
  Fyn gyffroi adenydd dawn.
Hoffai lais traddodiad addfwyn
  I'r Efengyl, credu 'roedd
Nad oes angen ar wirionedd
  Am gynorthwy udgorn-floedd.

---

* Byddai yn hoff neillduol o ddarllen y 15fed Salm, ac felly yn ei waeledd olaf yn arbenig.

Wedi cadw'i droed heb lithro
  Dros ymylon llwybrau moes,
Wedi dringo llawer mynydd,
  Wedi cario llawer croes :
Wedi gweled ei ddyfodol
  Yn ngoleuni gobaith drud,
Megis breuddwyd am y nefoedd
  Yn hapusrwydd ar ei hyd :
Wedi gweled Serch yn estyn
  Iddo briod fwyn ei gwedd,
Un a'i phleser mewn gofalu
  Rhag rhoi cwmwl ar ei hedd,—
Mae Afiechyd yn dynesu
  A marwolaeth yn ei law,
Merchyg ar y cwmwl tywyll
  Sydd yn llawn taranau braw ;
Gwelaf yntau dano'n plygu
  Gyda'i drem yn wael a phrudd,
Mae ei wenwyn wedi gwywo
  Blodeu bywyd ar ei rudd.

Pryder gerdda drwy'r ardaloedd
  Gyda thrallod ar ei ael,
Cwyna pawb mewn iaith ddrylliedig
  Fod y Meddyg hoff yn wael ;
Ond diystyr o'r teimladau
  Mwyaf tyner ydyw'r bedd,
Mae ei chysgod wedi'i daflu
  Eisioes dros ei hawddgar wedd.

Nid yw ymgynghori bellach
  Ond afreidiol ar ei ran,
Yn ei lygaid mae goleuni
  Arall fyd yn llosgi'n wan ;
Ond ar ol i gymwynasau
  Dynion wneyd a allent hwy,
Cawn gymwynas crefydd gywir
  Yma'n gallu llawer mwy.

CARDIFF
CYNGOR LIBRARY

Wele ddydd ei angladd difri
  Gyda'i brudd-der ger fy mron,
Dros fy ysbryd wrth ei weled
  Tŷr rhyw oer, alarus don;
Myn yr awen ei ddarlunio
  Gyda deigryn ar ei grudd,—
Deigryn nad oes sychu arno
  Ydyw deigryn hiraeth prudd :—

Dacw lethrau y mynyddau
  Wedi'u britho gan dorfeydd,
Oedant, tremiant drwy eu dagrau
  Heilltion ar ei hen rodfeydd;
Ond rhaid darfod son am ddagrau,
  Mae y galar prudd yn don,
Erbyn uno'n llu di-wenau
  O flaen muriau heirdd Llwyn Onn.

Annedd dawel, neillduedig,
  Mae alawon per mwynhad,
Wedi colli'u swn cyntefig
  Yn dy ystafelloedd mad;
Os edrycha'th fur gwyngalchog
  Fel o'r blaen rhwng cangau'r coed,
Mae ei drem fel sant hiraethog
  Heddyw'n wynach nag erioed!

Er i'w enaid fod yn addfed
  Iawn i fyned at ei Dduw,
Yn ngwyrddlesni'i oes ca'dd fyned,
  Heb un ddeilen arno'n wyw;
Ond er syniaw mynai'r lluoedd
  Gael cydnabod Duw i gyd,
Ac mae amser goreu'r nefoedd
  Ydyw amser goreu'r byd.

Dacw'r angladd prudd yn cychwyn,
  Anhawdd ydyw dal y drem,
Heb i alar roddi terfyn
  Ar y gân mewn storom lem.
Tybia fy nychymyg gwibiog
  Fod yr holl amgylchoedd gwiw,

"YR ATHRAW A'R MEDDYG."

# MARWNAD

# DR. JOHN HUGH JONES,

## TALYSARN.

GAN

MR. H. JONES (BRYFDIR), BLAENAU FFESTINIOG

(BUDDUGOL YN NGHYLCHWYL GADEIRIOL TALYSARN A HYFRYDLE, IAU Y DYRCHAFAEL, 1893),

GYDA

# BYR-GOFIANT,

GAN Y

PARCH. THOMAS GWYNEDD ROBERTS, RHOSTRYFAN.

---

CAERNARFON:
ARGRAPHWYD GAN W. GWENLYN EVANS, 22, STRYD-Y LLYN.

# BYR-GOFIANT.

GYDA hiraeth calon yr ydym yn ysgrifenu y crynodeb canlynol o fyw-graffiad Dr. J. H. Jones, a chyda gobaith hefyd y bydd ei fywyd a'i gymeriad yn cael eu hefelychu gan ereill.

Yn Nyffryn Nantlle y ganwyd ac y magwyd ef, ac felly ynghanol golygfeydd rhamantus: yngolwg y Wyddfa bob dydd, yn swn y clogwyni yn cwympo drwy rym pylor, y creigiau yn hollti dan ddwylaw y chwarelwr, ac yn cael eu cyfaddasu i farchnad y byd. Yr oedd yspryd, chwaeth, a dawn chwarelwr i raddau ynddo yntau. Bu yn y gloddfa—hen gloddfa adnabyddus y Cilgwyn—am yspaid yn nhymor ei febyd. Yr oedd efe, pa fodd bynag, ar ei fynediad cyntaf i'r gloddfa, mor amlwg fel un wedi gwneyd defnydd priodol o'i ysgol fel y byddai y goruchwyliwr yn ei alw i'r swyddfa yn fynych i gyfieithu iddo ef. Yr unig ysgol a gawsai hyd yn hyn oedd yr un a gynelid mewn ystafell uwchben hen gapel Talysarn, a chychwynwyd amryw o rai cryfion o'r ysgol hono.

Ni fu yn y gloddfa ond am oddeutu pedwar mis. Ond er mor fyr y tymor, dysgodd gymaint o waith chwarelwr ag a allesid mewn amser mor fyr. Gwedi gadael y gloddfa aeth oddi-cartref i le o'r enw Gateshead, i ysgol, o'r hon y gwnaeth ddefnydd rhagorol. Yn mhen chwe' mis dychwelodd oddiyno ac aeth i swyddfa chwarel dan foneddwr o'r enw Mr. Tuxford, yn Mhorthmadog. Byr fu ei arosiad yno hefyd, oblegyd yr oedd ei fryd ar fyned i fyny, ac am gael cylch i fwy a gwell gwas-anaeth i gymdeithas na bod yn glerc chwarel. Y lle nesaf yr ydym yn ei gael ynddo ydyw y Coleg Normalaidd yn Mangor, ac yn myned drwy ei gwrs yno gyda llafur dyfal, a thrwy ei arholiadau gyda llwyddiant amlwg. Bu yn dylyn dosparth parotoawl a gynelid ynglyn â'r Coleg am nifer o fisoedd, cyn ymrestru ohono yn efrydydd rheolaidd.

Cwblhaodd ei yrfa athrofaol yn Mangor pan oedd oddeutu ugain mlwydd oed, a chafodd ei appwyntio i fod yn ysgolfeistr Llanfair P.G. Ond wedi bod yno am oddeutu deunaw mis llesg-äodd ei iechyd, fel y bu raid iddo roi ei waith o'r neilldu, a dychwelyd gartref, ac aros yno am haner blwyddyn. Pa fodd bynag, bu yn Llanfair am ddigon o amser i brofi ei fod yn athraw effeithiol, ac yn wr ieuanc o ymddiried mawr a chymeriad pur.

Wedi cael ohono adferiad iechyd y mae yn ymgymeryd â gofal Ysgol Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog. Bu yno yn gweithio, yn galed ac yn llwyddianus, am bedair blynedd, gan

Gwedi ymsefydlu fel meddyg yn Nyffryn Nantlle, deuai ei gymeriad a'i weithgarwch gydag addysg, moes, a chrefydd, yn amlwg a gwerthfawr iawn. Bu yn aelod o Fwrdd Ysgol Llanllyfni am naw mlynedd. Yr oedd syniad y dyffrynwyr am dano mor uchel fel y dewiswyd ef ganddynt ar y Bwrdd Ysgol ymhen blwyddyn ar ol iddo ddychwelyd i drigo i'w plith. Yr oedd ei brofiad fel ysgolfeistr, yn gystal a'i gydnabyddiaeth fanwl â deddfau a chyfarwyddiadau y Cyngor Addysg, yn ei fawr gymhwyso i fod yn aelod o Fwrdd Ysgol. Pan ymwelai ag ysgolion y plwyf, teimlai yr athrawon eu bod yn cael ymweled â hwynt, yn enw y Bwrdd Ysgol, gan un a wyddai yn brofiadol beth oedd bod yn athraw ei hunan, un y gwyddent allai gydymdeimlo â hwynt yn holl helbulon ac anhawsderau eu gwaith, ac un yr oeddynt yn barod i wrando arno yn rhoi cyfarwyddiadau iddynt gyda golwg ar gyflawniad eu dyledswyddau. Credwn hefyd nad oedd rodres ynddo yntau, nac ymestyniad am fath yn y byd o uwchafiaeth ar yr athrawon, pan yr ymwelai yn achlysurol â'r ysgolion. Yr oedd ei zêl dros addysg yn gyfryw nes peri i'w gysylltiad â'r Bwrdd Ysgol fod yn un llawn bywyd a gwaith, ac yn gysylltiad ddylynwyd â llwyddiant. Ac y mae yn amlwg fod Trethdalwyr y Dosbarth Ysgol yn gwerthfawrogi ei lafur, oblegyd ymhen ychydig ddyddiau wedi ei ymadawiad â'r byd, mewn cyfarfod lluosog ohonynt a gynelid yn Mhenygroes, dangosent eu gwerthfawrogiad o'i lafur ef ynglyn â phleidlais o gydymdeimlad serchog basiwyd a'i deulu.

Am y tair blynedd, 1886-8, bu yn cynal dosbarthiadau meddygol y *St. John's Ambulance*, a dylynid y cyfryw gan nifer dda o feibion a merched. Cofir eto gan yr aelodau am yr eglurder a'r modd tra dealladwy yn mha un y traddodai Dr. Jones ei ddarlithiau a'i wersi. Aeth yr oll o aelodau y dosparthiadau drwy eu harholiadau yn llwyddianus, a chawsant gyda hyny uchel gymeradwyaeth yr arholydd. Yr oedd amryw o fysg teuluoedd a chylchoedd pwysicaf yr ardaloedd wedi ymuno â hwynt, megys Mrs. W. A. Darbishire, Nantlle; Mrs. Dr. Roberts, Penygroes, ac amryw o oruchwylwyr y cloddfeydd, &c. Cynorthwyid Dr. Jones y ddwy flynedd olaf gydag un dosparth gan Dr. H. J. Roberts, Penygroes. Diau fod gwaith oedd dra angenrheidiol wedi ei wneyd, ac i Dr. Jones yn benaf o bawb y mae diolch.

Nid yr ysgol ddyddiol yn unig gâi ei sylw, na dosparthiadau meddygol. Yr oedd ysgol well nag ysgol ddyddiol, ac addysg bwysicach na'r addysg fydol oreu, yn cael lle yn ei feddwl hefyd —yr Ysgol Sabbothol a'i haddysg oruchel hi. Diangenrhaid ydyw dyweyd y bu efe, wrth gwrs, o werth mawr fel athraw ac fel swyddog effeithiol yn Ysgol Hyfrydle, Talysarn. Yr oedd ei fedr ef i gyfranu addysg yn cael ei deimlo ymhob dosparth.

reswm dros deimlo yn siomedig oherwydd ei benodi ef i'r gwaith, ond yn gwbl fel arall.

Ynghanol amlder ei ofalon, ac er cymaint ei waith ynglyn a'i alwedigaeth, mynai gyfleusderau i ddylyn moddion gras, ac i gael cymdeithas ei frodyr a'i chwiorydd crefyddol. Ei fod yn wr mor ymroddedig i grefydd sydd yn cyfrif am ei zel a'i lafur gyda'r Ysgolion Sabbothol, ac o ran hyny gyda'r ysgolion dyddiol hefyd. Yr oedd efe ymhob peth, "trwy ewyllys da yn gwneuthur gwasanaeth megys i'r Arglwydd ac nid i ddynion." Yr oedd cymaint o nerth egwyddor yn ei grefydd fel na phlygai oddiwrthi i gyfarfod â dymuniadau neb pwy bynag. Y mae dynion mewn galwedigaethau cyffelyb i'r eiddo y Dr., dan rai amgylchiadau, yn amddifaid o rym a phenderfyniad i lynu wrth eu hegwyddorion, gan ofn colli math o boblogrwydd. Dangosant fedr neillduol i ymgadw fel ag i ymddangos wrth fodd pawb. Ond ni allai ein cyfaill fod yn anffyddlawn i egwyddor crefydd Iesu Grist. Ac yr oedd mor ffyddlawn i egwyddorion y Cyfundeb crefyddol y perthynai iddo fel na fradychai y rheiny i foddhau neb o gwbl. Buasai yn well ganddo ddyoddef na bod yn anffyddlawn i'w egwyddorion. Yr ydym yn argyhoeddedig mai "Deddf ei Dduw oedd yn ei galon ef" i beri iddo fod mor ddiysgog.

Yn y gweinyddiad o ddyledswyddau ei alwedigaeth fel meddyg, yr oedd yn enill mwy-fwy o ymddiried a chymeradwyaeth preswylwyr y rhan o'r wlad y trigai ynddi. Yr oedd cylch ei alwad yn ymeangu yn raddol a sicr y naill fis ar ol y llall, a hyny nid yn unig oherwydd ei fedr, ond hefyd oherwydd ei dynerwch a'i gydwybodolrwydd ynglyn â'r rhai y gweinyddai arnynt. Cai y tlodion ynddo, nid meddyg yn unig, ond cymwynaswr a chynorthwywr llawn cydymdeimlad. Rhoddai ar ddeall i'r rhai gwir dlodion y gwnelai ei oreu iddynt yn eu hafiechyd, ac na byddai raid iddynt betruso am eu dyled iddo ef, hyd oni byddai eu hamgylchiadau yn caniatau. Clywsom ffaith fel hyn am dano. Yr oedd wedi bod yn gweinyddu mewn teulu ag yr oedd llawer o afiechyd wedi bod ynddo, a theulu y gwyddai yntau nad oedd eu hamgylchiadau uwchlaw bod yn wasgedig. Ond rywbryd aeth y penteulu i dalu i'r Dr. Gwedi deall pa faint oedd y swm dyledus, y mae y gwr yn estyn yr arian iddo, pryd yr atebodd y Dr. y buasai yn well ganddo beidio eu cymeryd hyd nes y byddai yn haws iddo dalu nag yr ydoedd, yr oedd efe yn ofni, yr adeg hono. Na, ebai y dyn, yr ydych chwi wedi bod acw yn ffyddlon, wedi gwneyd eich goreu, ac wedi rhoi eich cyffuriau; ac nis gallaf feddwl am i chwi fod heb eich arian. Cymerodd y Dr. yr arian, arwyddodd y *Bill*, ac estynodd ef i'r dyn. "Yn awr," ebai y Dr., "y fi biau yr arian yma, onide?" "Ie," oedd yr atebiad. Ychwanegai y

Erbyn deall yr oedd ei gyfansoddiad wedi gwanychu er ys amser. Nid oedd neb wyddai hyny yn well nag efe ei hunan. I'r tŷ yma y daeth y waith olaf oll y bu yn ymweled a chlaf. Nid oeddwn ar y pryd yn deall geiriau a ddywedai wrth y claf hwnw am ei iechyd ei hunan. Deallais hwynt yn fuan ar ol hyny, ac fod y meddyg a'r claf dan yr un afiechyd. Ond goddiweddwyd y Dr. mae'n ymddangos gan afiechyd arall, yr hwn a'i cadwodd am wythnosau mewn gofidiau ac ingoedd, ac a brysurodd derfyn oes.

Yn ystod wythnosau ei gystudd, yr oedd gwirioneddau y Gair ag yr oedd efe mor hoff ohono, yn rhoi cynhaliaeth gref i'w yspryd. Llawer gwaith yr adroddodd y xv. Salm, a phan y cai ychydig hamdden, megys rhwng y cawodydd, canai aml i benill. Un diwrnod pan oedd Dr. Parry, Caernarfon, ar ymweliad ag ef, cwynai ei fod yn methu cysgu, a dywedai fod arno hiraeth am gael cysgu noswaith fel y cai pan oedd yn fachgen. Atebodd Dr. Parry ef mewn geiriau tebyg i hyn (yr oedd y ddau yn gyfeillion cwbl gydnabyddus a'u gilydd),—"Ti gei gysgu yn union, machgen i." Atebai yntau yn ol ar unwaith,—"Caf, mi gaf gysgu yn union," gan daflu ei feddwl, yr oedd yn amlwg, at y diwedd; ac ychwanegai drosodd a throsodd, gan roi pwyslais ar y gair olaf,—"cysgu, gorphwys, a *chyfodi*," "*cysgu, gorphwys*, a CHYFODI." Ychydig cyn i'w yspryd ehedeg at y Duw a'i rhoes, dywedai ei fod yn teimlo ei hunan yn yr afon, ond fod yr Iesu yno yn ei gyfarfod.

Fel hyn yr aeth ein cyfaill anwyl i ffordd yr holl ddaear, ar foreu Sabbath, y 7fed o Chwefror, 1892. Gadawodd briod ffyddlawn mewn dagrau lawer, gyda dau o blant bychain heb dad. Ac wylofain hiraethlawn oedd yn ei hen gartref, Bron Madog, gan ei fam, ei phriod, a'i frawd.

Y dydd Iau canlynol daeth tyrfa fawr i'w angladd, a thyrfa fawr ag yr oedd lluaws ynddi yn galaru. Gwasanaethwyd wrth y tŷ gan y Parchn. J. O. Jones, Llanberis; W. Jones, Porth Dinorwig; J. Williams, Bangor; a D. Marriott, Porth Dinorwig; ac ar lan y bedd gan y Parchn. O. Ll. Davies, Liverpool, W. E. Williams, J. J. Williams, a J. M. Rees, Penygroes; yr Ysgrifenydd, a'r Parch. G. C. Roberts, Llanllyfni.

Ni siriolodd wyneb ei fam, Mrs. Griffith, Bron Madog, nemawr gwedi i dyweirch mynwent y Llwyndu, Penygroes, guddio ei weddillion ef. A chwith meddwl ei bod hithau erbyn heddyw wedi ei dodi i orwedd gerllaw gorphwysfan ei hanwl John, yn yr un fynwent. Nawdd y Nef fyddo dros ei briod drallodedig a'i dau blentyn hawddgar, ac hefyd dros ei dadynghyfraith, Mr. W. Griffith, a'i frawd, Dr. W. Griffith, y rhai y mae eu galar bellach yn ddeublyg.

Rhostryfan, Awst 9, 1893.

I beidio dweyd ei hanes mewn rhaiadrau,
Na myned trwy gyflafan i enwogrwydd
Fel corwynt ar ei daith gan wasgar aflwydd ;
Ond gyda symledd cariai bobpeth allan,
A mantell o dangnefedd dros y cyfan.
Ac fel bu yntau byw i gael ei garu
Yr hoffwn inau bellach allu canu,
Nes bod yn gymwynaswr llu afrifed
Sydd yn hiraethus ddisgwyl am gael gweled
Ei oes ar geinciau cerdd, i'w chadw'n ddiau
Ar drostan wen Edmygedd drwy yr oesau.

Wrth syllu heddyw ar y llwybrau gerddodd,
A gweled llawer bryn bygythiol ddringodd,
Temtasiwn a'm cymhella'n gryf o'r newydd
I adolygu cwrs ei rawd ysblenydd.
Anturiaf ufuddhau, doed fel y delo,
Nid ydyw hyn yn fwy na'm cariad ato ;
Ac ni fydd iaith fy hiraeth wedi oeri
Cyn cwblhau y gerdd, parha i losgi
Cyhyd a'r côf am dano, a bydd hwnw
Tra tòn ar lif y Lyfnwy'n siglo'n hoew.
Os myn Beirniadaeth edliw diffyg cynllun,
Neu ddangos " rhy " o rywbeth yn y darlun,
Gwybydded na chaiff neb mewn hiraeth gwastad
Yr hamdden i ymdroi yn nghylch deffiniad.

Traethaf ei oes yn awr tra llewyrch dagrau
Hiraethus yn fy arwain hyd y llwybrau,
A chanaf gan adeinio hyd y diwedd
Yn ngolwg aur binaclau y gwirionedd.

Dydd ei eni mewn tangnefedd
  A ymegyr o fy mlaen,
Gyda'r Gwanwyn ar ei orsedd
  Mewn gwyrddlesni pur, di-staen ;
Er na wyddai natur swynol
  Ddyfod angel bychan, gwyn,
I roi parch a bri anfarwol
  Ar hen aelwyd Tanybryn.

Gall fod disgwyl am atebion
  Yma'n gyfeiliornad syn,
Ond mae amledd ei henwogion
  Fel yn cyfreithloni hyn.

Adail ddinod ydoedd cartref
  Addysg yn ein bro'r pryd hyn,
Ond dinodedd llawn o dangnef
  Oedd, fel eiddo'r anial fryn;
Ni chai cleddyf Llid diderfyn
  Neb i afael yn ei garn,
Yn ysgoldy plant y dyffryn
  Uwchben Capel Talysarn!

Dyna'r fan lle buodd yntau
  Yn rhoi sylfaen oes i lawr,
Ac yn tori ei gynlluniau
  Gyda phenderfyniad cawr;
Ac os oedd ei drem yn wylaidd
  Fel y dydd yn nechreu'i daith,
Meddai allu mawr, dirgelaidd,
  Megis yntau'i wneyd ei waith.

Clywai swn emynau tirion
  Y Diwygiad ar eu hynt,
Yn dod heibio fel angylion
  Weithiau gan falmeiddio'r gwynt,—
Llais taerineb ambell oedfa
  Weithiau'n oedi gylch y lle,
I awgrymu am y Noddfa
  Wrth y plant cyn myn'd i'r Ne';
Nes cyffroi yr Athraw gwylaidd
  I glodfori rhin y gwaed,
Ac i ddweyd fod daear santaidd
  Gysegredig dan eu traed;
Nes bod gwersi'r ysgol hono,
  Yn ei syniad ieuanc ef,
Fel yn cael eu gwir eneinio
  Gan fendithion goreu'r nef.
Mwy o lais Efengyl loyw,
  Llai o wg a thymhestl hell,
'Roddai Addysg Cymru heddyw
  Ar sylfeini llawer gwell.

Ni ddo'i llythyr o Borthmadog
O dan ddwylaw glan John Hugh,
Heb ei gofion mwyaf serchog
At ffyddloniaid eglwys Dduw.

Cerddodd lawer hyd y traethau,
Ar erchwynion gwely'r môr,
Gan addoli gyda'r tònau
A chyflwyno mawl i'r Ior;
Creodd lu o ddymuniadau
Tra yn gwel'd eu rhyddid hwy,
Am fwynhad o fôr di-lanau,
Heb ddim ond addoli mwy.

Wedi gwylio'r trai a'r llanw
Hyd y glanau lawer gwaith,
Clywodd genadwri groyw
Er mewn dileferydd iaith,
Yn ei gyfarch un diwrnod,
Fel ar frig rhyw "nawfed tòn,"
A gwrandawodd gyda syndod
Ar hyawdledd rhyfedd hon :—

" Llanw môr dy fywyd dithau
Welir heddyw, lencyn syn,
Gyda'i luoedd cyfleusderau'n
Cuddio traeth dy fywyd gwyn ;
Ond mae 'trai' i ddod yn ebrwydd,
Gwylia adael heddyw'n gaeth
Unrhyw werthfawr bosiblrwydd
I adfeilio ar y traeth."

Cerddodd adref a'r wybodaeth
Yn ymlosgi yn ei fron,
Ac ymroddodd i efrydiaeth
Dan arddeliad llais y dòn ;
Mynodd dyfu'n wron cydnerth
Mewn duwioldeb, dysg, a dawn,
Megis pren afalau prydferth
A'i ganghenau oll yn llawn.

Er mor ddyfal bu'n ymdrechu
  Yma gyda gwersyll Duw,
'Roedd rhagluniaeth wedi trefnu
  Ardal arall iddo'i fyw.

Cefnodd ar eu holl anwyldeb
  Gyda deigryn ar ei rudd,
Yn dystiolaeth fyw o'r undeb
  Hwn, er byred oedd ei ddydd,—
Cefnodd fel mae'r haul yn cefnu
  Ar y byd yn mrig yr hwyr,
Wedi enill pawb i'w garu,
  Wedi gwneyd ei waith yn llwyr.

Rhwng mynyddau Sir Feirionydd
  Cyfarfyddwn ef yn awr,
A'i ogoniant byth ar gynydd
  Fel y dydd hyd lwybrau'r wawr ;
Nid oedd symud yn cyfnewid
  Gwyneb ei gymeriad ef,
Ond fel dalen o addewid
  Yn mhob man dan liw y nef.

Cafodd Addysg plant Ffestiniog
  Ynddo gymwynaswr drud,
Ac ar lechres eu gwyr enwog
  Saif ei enw oesau'r byd ;
Nid dyhead am glodforedd
  Oedd yn annog hwn i waith,—
Cael cydwybod lawn tangnefedd
  Iddo'n gwmni ar y daith.

Nid trwy "raid" hyfforddiai blentyn,
  Meddai rhyw dynerwch gŵyl,
Roddai gân ar dant pob telyn
  Fel un Dafydd ar yr Wyl ;
'Roedd prydferthwch ei ddoethineb,—
  Blod'yn harddaf meddwl dyn,
Yn awdurdod ac anwyldeb
  I weithredu yn gyttun.

Wedi cerdded hyd y llwybrau
Anrhydeddus gerddodd yntau,
Ni gawn bellach syllu arno
Gartref wedi gorphen teithio.

Ar ei droed bu'n wyliadwrus
Yn ei symudiadau dyrus,
Nes mae ôl ei gamrau heddyw
Fel ffynhonau gloyw, gloyw.

Nid yn ofer y llafuriodd,
Nid heb obaith yr ymdrechodd,
Mae'i ddyfodol ar y gorwel
Gyda'r wobr yn ddiogel.

Ei amynedd fu'n cysgodi
Ei fwriadau wedi'u geni,
Ond rhaid i'w amynedd bellach
Adrodd penod ei gyfrinach.

Anhawdd cadw'r haul i losgi
Dan gymylau, try goleuni
Glan ei natur ef ei hunan
Iddo yn fradychwr buan.

Bellach gwena ei gymhwysder
Yntau'n wyn drwy gymyl Pryder,
Gan greu llu o ragolygon
Uchel fel mynyddau Arfon.

Llanwodd swydd y Meddyg parchus
  Ddeg o flwyddi yn ein mysg,
Meddyg tyner a gofalus,
  Llawn o Dduw a llawn o Ddysg ;
Tynged llawer achos difri
  Fu yn crogi wrth ei farn,
Boddlon fyddai pawb i dewi
  Ond cael Doctor Talysarn.

Mae canmoliaeth wedi llwyddo
  I ddinystrio llawer dyn,
Cyn cael hamdden i astudio'i
  Wenndid peaf ef ei hun ;

Methodd holl fynyddau'r Cymffyrch
  Atal llif poblogrwydd hwn,
Dros eu holl gopäu anhygyrch
  Cerddodd ei ddylanwad gwn;
Beth ond drylliog dystiolaethau
  Yr ardaloedd ar bob gwedd,
A ddarllenem yn y dagrau
  Gollwyd ar ei gynar fedd ?

Bu yn arddel ei ddaliadau
  Ar y llwyfan lawer tro,
O dan rym ei osodiadau
  Bron na chrynai creigiau'r fro !
Llosgai llewyrch y "deffroad"
  Yn ei lygaid, yn ei lais,
A chyneuai hwnw'n wenfflam
  Yn nghymdogaeth gorsedd trais.

Safai'n gryf dros hawliau Dirwest,
  Credai yn ei hawliau gwn,
Joseph oedd yn mysg ei frodyr
  Yn y neillduolrwydd hwn;
Methodd egni temtasiynau
  Llawer tref a llan, a llys,
Ei berswadio ef i gladdu
  Nerth ei oes yn "meddau'r blys !"
Cadwodd ef ei air a'i weithred
  Drwy ei oes yn ddiwahan,
Rhag rhoi hawl i wres euogrwydd
  Ddeifio gwisg un awgrym glân.

Rhoes ei egni o blaid Addysg,
  Do, er goddef llawer sen,
Gwyddai ef pa le i ddechreu
  Gwneuthur Gwalia'n Walia Wen.
Ni fu bwyell aur yr yswain,
  Ni fu braich cenfigen gref,
Ddigon nerthol i chwilfriwio
  Ei gynlluniau gwerthfawr ef;
Ca'dd Llanllyfni ei bendithio
  O dan sel a dawn y sant,
Yn ei "fynych wendid" poenus
  Mynai ymladd dros ei phlant;

Gwr cynefin ar ei liniau
  Ydoedd ef, a theimlem flas
Ar ei weddi ddidwyll, seml,
  O flaen dwyfol orsedd gras;
Gweddi wedi ei heneinio
  Gan nefolaidd wlith oedd hon,
A blodeuai addewidion
  Goreu'r nefoedd ar ei bron.

Amhoblogrwydd un cynulliad
  Ni fu'n rhwystr iddo ef
Ddod a rhoi ei bresenoldeb
  Wrth orseddfainc gras y nef;
Bydd adgofion o'i brofiadau
  'Mhen blynyddau yn eu bri,
Rhoddant wlith ar ein meddyliau,
  Nerthant ein gwendidau ni.

Ond yr Ysgol Rad Sabbothol,—
  Prif Athrofa Gwalia Wen,
Deimlodd frathiad cleddyf trallod
  Pan ogwyddodd ef ei ben;
Galar hyd ei llwybrau grwydra
  Fel afradlon gwmwl prudd,
Dan ei wg ei phlant hiraethant
  Fel y blodeu am y dydd.

Bu Uwch Gwyrfai dan ei ofal
  Yn blodeuo megis gardd,
Ei ddylanwad greai fywyd
  Fel cyffyrddiad awen bardd.
Bu manylwch y Safonau
  Yn arswydo llawer un,
Am fod lliw newydd-deb arnynt,
  Cawsant waethaf llawer dyn;
Ond dadleuai yntau drostynt,
  Dros eu hawliau daliai'n dŷn,
Mae gwyrddlesni gwanwyn llwyddiant
  Dros y meusydd erbyn hyn.

Er i'w gwsg naturiol gilio
  Yn y cyfyngderau hyn,
Dywed llais ei obaith wrtho
  Nes goleuo nos y glyn,—
"Cysgu, Gorphwys, a Chyfodi"*
  Gei yn fuan er dy boen,
A chei fythol etifeddu
  Bywyd mewn anfarwol hoen.

"Cysgu, Gorphwys, a Chyfodi,"
  Er fod ing yn cloffi'i lais,
Methodd gallu angeu'i hunan
  Ar y geiriau roddi trais;
"Cysgu, Gorphwys a Chyfodi,"
  Harddach y'nt na thalpiau aur,
Ac mae gobaith gwynfydedig
  Fel yn bwyslais i bob gair.

Bu yn canu yn ei gystudd
  Droion am yr afon ddofn,
A phan ddaeth ei awr i'w chroesi,
  Cerddodd at ei glan heb ofn;
Llathrodd frig ei thònau geirwon
  Gyda'i Arglwydd yn ddi-fraw,
Gyda deugain o flynyddau
  Fel rhosynau yn ei law.

Sabboth oedd y diwrnod hwnw,
  Sabboth byr ein daear ni,
Pan aeth ef i ddechreu Sabboth
  Annherfynol dros y lli';
Ni ddaw wythnos byth i'w ddilyn,
  Gyda'i byd-ofalon cas,
Caiff yn hwn dragwyddol orphwys
  Yn gyfoethog byth mewn gras.

---

* Dywedodd y geiriau uchod wrth Dr. Parry, Caernarfon, pan addawai wrtho, er ei gysuro, y cawsai gysgu yn well yn fuan. "Caf," meddai yntau, "Cysgu, Gorphwys, a Chyfodi."

Yn awgrymu eu trallodau
  Ac yn datgan hiraeth byw;—
Fod pob llwyn yn plygu'i wylo
  Wrth ei gofio'n llon ei wedd,
Hithau'r awel leddf yn cwyno
  Am eu dail i wisgo'i fedd.

Ond mae'r fynwent ddu yn amlwg,
  Dacw'r bedd agored, oer,
Wyla'i Weddw yn yr olwg
  Arni, megis gauaf-loer;
Galar gwyd ei lais toredig,
  Hyd y llwybrau pruddaidd hyn,
Gweddaidd ydyw bron ddrylliedig
  Ar ymylon oer y glyn.

Nofia'r Emyn ar yr awel,—
  Awel finiog Chwefror yw,
Drwy y dagrau yn ddiogel
  Dringa'r Weddi fry at Dduw;
Sibrwd lleddf pob syniad gafwyd
  Wrth y bedd i ddatgan parch,
Erys yn y côf fel breuddwyd,—
  Breuddwyd oer fel trem ei arch.

Ond ar ol i'r lliaws gefnu,
  Wrth ei fedd yn glynu'n daer
Gwelir lliaws yn galaru,
  Llawer brawd, a llawer chwaer;
Cysgod iddynt rhag drychinoedd
  Fuodd droion yn y byd,
Ond mae perlau gan y nefoedd
  Am y cymwynasau'i gyd.

Cefnaf ar ei feddrod newydd,
  Nid heb obaith ar fy ngwedd,
Na bydd engyl moes a chrefydd
  Byth yn gwarchod gylch y bedd,
Eto'n ddiau myn yr awen
  Hon, os ceir estyniad oes,
Leithio grudd yr un dywarchen
  Yn Macpelah Penygroes.

"Y PREN GWYN."

CARDIFF
UWCC LIBRARY